Y Capten Allen Gardiner 1794–1851

Fforiwr dros Grist a sefydlydd y South American Missionary Society

Pumed mab i Samuel a Mary Gardiner oedd Allen a ganwyd ef ar 28 Ionawr 1794 ym mhersondy Basildon, Berkshire. Cafodd addysg grefyddol ac ym 1808 aeth i Goleg Brenhinol y Llynges yn Portsmouth. Hwyliodd ar yr HMS *Fortune* a'r HMS *Phoebe* lle y disgleiriodd wrth iddynt gipio'r ffrigad Americanaidd *Essex*. O ganlyniad fe'i dyrchafwyd i fod yn is-gapten a bu'n hwylio ar nifer o longau i bellafoedd daear. Yn y diwedd cafodd ei ddyrchafu i fod yn gomander ond ar ôl 1826 ni allai gael unrhyw waith.

Er iddo gael ei fagu ar aelwyd Gristnogol ni chafodd hyn unrhyw ddylanwad arno. Ymunai gyda'r hyn oll a wnâi'r morwyr eraill heb unrhyw arwydd o fywyd ysbrydol. Ond pan oedd yn Portsmouth fe brynodd Feibl oherwydd fod arno ofn marwolaeth. Tra oedd ar daith i'r Dwyrain Pell derbyniodd lythyr yn ei hysbysu fod ei fam wedi marw. Wrth hel atgofion amdani, cofiai am ei gweddïau drosto ac am ei chyngor parhaus bod yn rhaid iddo gael ffydd yn Iesu Grist. Tra oedd ar ymweliad â theml yn China rhoddodd ei fywyd i'r Arglwydd. O'r eiliad honno ymlaen gweddnewidiwyd ei fywyd. Dechreuodd ddarllen ei Feibl gydag awch a manteisiai ar bob cyfle i siarad am Iesu Grist gydag eraill.

Wrth deithio ym Mheriw a Chile daeth yn ymwybodol iawn o sefyllfa'r brodorion yno ac o'r modd yr oeddent yn cael eu cam-drin a'u hecsbloetio yn ddidrugaredd gan ddynion gwyn. Gwelai wahaniaeth mawr rhyngddynt hwy a'r brodorion Cristnogol yn Tahiti a oedd yn rhydd o ormes ofergoeliaeth. Cyn iddo gyrraedd adref i Loegr fe'i hargyhoeddwyd y dylai fynd yn genhadwr at lwythau brodorol De America.

Dychwelodd adref gan geisio ennyn diddordeb yn ei weledigaeth ond aflwyddiannus fu ei ymdrechion. Ceisiodd gefnogaeth gan y London Missionary Society ond gwrthodwyd ei gais a bu'n rhaid iddo dorri ei gŵys ei hun. Ym 1837 hwyliodd gyda'i deulu i Dde America gan lanio yn Rio de Janeiro, Brasil. O'r fan honno aeth i Buenos Aires yn yr Ariannin

lle y chwiliodd, yn aflwyddiannus, am gyfle i weithio gyda'r llwythau. Roedd y brodorion yn eithriadol o amheus o bobl wyn a hawdd deall hynny wrth feddwl am y creulondeb a ddangoswyd tuag atynt. Ar ei deithiau dysgodd ddau beth sef yr angenrheidrwydd i ddysgu'r ieithoedd lleol a bod dylanwad y Catholigion yn eithriadol o gryf.

Ym 1840 aeth i Batagonia gan gyfarfod pennaeth llwyth yr Hawanchi sef Wissale. Caniataodd ef i un cenhadwr aros yn eu plith. Dychwelodd Gardiner i Lundain i chwilio am gefnogaeth ariannol ond eto bu'n aflwyddiannus. Wedi iddo symud i fyw i Brighton llwyddodd i gael cefnogaeth ychydig o bobl ddylanwadol a chodi peth arian. Ym 1844 sefydlwyd y Patagonian Missionary Society ac anfonwyd un cenhadwr, sef Robert Hunt a oedd yn athro ysgol, i Batagonia ond byrhoedlog fu ei arhosiad yno.

Roedd y tân yn dal i losgi yng nghalon Gardiner a phenderfynodd sefydlu cenhadaeth yn Tierra del Fuego, yn ne'r Ariannin, gan ddefnyddio llong i gynnal y gwaith. Hwyliasant o Lerpwl ym 1850 yn yr *Ocean Queen* a glanio ar Ynys Picton ar 5 Rhagfyr. Roedd ganddynt ddau gwch bychan 26 troedfedd o hyd ac ar eu byrddau ddigon o gynhaliaeth i gynnal saith dyn am chwe mis. O'r dechrau aeth pethau o chwith. Ymosodai'r brodorion arnynt yn barhaus. Roedd y gaeaf yn chwyrn a'r tir yn hesb ac yn raddol, bob yn un ac un, bu farw'r cenhadon o newyn. Pan gyrhaeddodd y llong *John Davison* i'w cynorthwyo yn Hydref 1851 y cyfan oedd i'w wneud oedd claddu'r cyrff a diogelu dyddiadur Gardiner. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym 1854, anfonwyd yr *Allen Gardiner* i Batagonia fel llong genhadol ac ym 1856 aeth unig fab Gardiner sef Allen W. Gardiner yn genhadwr yno. Ym 1867 newidiwyd enw'r mudiad o Patagonian Missionary Society i South American Missionary Society.